# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

## COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 13eg MAI 2025 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. **Presennol** - Siân Dafydd (cad), Gareth Jones, Harry Owen, Nigel Williams - Talysarn Dafydd Thomas - Nebo, Barry Bracegirdle, Erfyl Williams - Penygroes, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Tesni Glyn - Llanllyfni,. Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** – Justin Davies, Judith Humphreys, Ceri Owen - Penygroes, Gerallt Hughes - Nantlle

2. **Datgan buddiant** - pwynt 11 Siân Dafydd - Ceisiadau cynllunio.

3. **Cofnodion cyfarfod 8 Ebrill 2025** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion** - gofynnwyd i'r clerc gysylltu ag ADRA i holi sut oedd pethau wedi mynd gyda rhedeg y cwrs ar dir Cwtin. Adroddodd y clerc y bydd yr archwilio cerrig beddi yn y tair mynwent yn cychwyn y penwythnos yma.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Aethpwyd drwy'r adroddiad a rhoi cyfle i bawb godi unrhyw sylwadau. Diolchwyd i Cyng. Peter Thomas am ei adroddiad a'i waith a nodwyd bod yn braf gweld gymaint o bethau positif yn mynd mlaen.

6. **Sefyllfa goryrru yn Nantlle** - cafwyd cais gan Cyng. Peter Thomas yn gofyn a fuasai'r Cyngor Cymuned yn fodlon ariannu cael arwydd solar ym mhentref Nantlle gan fod goryrru yn broblem yno. Esboniodd y buasai'r gost yn oddeutu £4000 i £5000. Yn dilyn trafod y mater gofynnwyd i Cyng. Peter Thomas cael prisiau gan gwmnïau gwahanol ac yna ei drafod ymhellach yn y cyfarfod mis Mehefin.

7. **Golau Nadolig** - roedd pawb wedi derbyn yr e-bost gan gwmni LITE ynglŷn â beth oeddynt yn fodlon dalu am yr hen olau (£1830) a hefyd wedi gweld pa liwiau sydd ar gael ar gyfer y golau newydd sef 'ropelights' fydd yn mynd o gwmpas y polion. Yn dilyn trafodaeth am y lliwiau cafwyd pleidlais os am fynd am rai aml-liwiau neu wyn yn unig. Yn hytrach nac aml-liw roedd y rhan fwyaf eisiau mynd am liw coch, gwyn a gwyrdd os yn bosib neu os ddim yna aml-liw. Nid oedd llawer yn ffafrio gwyn yn unig. Y clerc i holi'r cwmni os yn bosib cael dim ond coch, gwyn a gwyrdd ac os yn bosib yna eu harchebu.

8. **Materion Pentrefi** - **Penygroes** - gyliau angen eu glanhau yn Nhrem Yr Wyddfa. Draen tu allan i fflatiau Trem Yr Wyddfa'r gwaith heb ei orffen yno. Palmant o Lôn Eglwys am Co-op amgen ei thrwsio. Parcio ar y Stryd Fawr yn ofnadwy - gofyn a posib i'r swyddog gorfodaeth parcio ddod allan i ymweld. Chwyn yn ddifrifol ymhob man o gwmpas yr ardal. Ffordd Llwyndu - palmant ar goll o dan chwyn. **Llanllyfni** - mynedfa i Faes Castell y postyn wedi dod i ffwrdd ac angen ei ail osod. Y twll yn ymddangos unwaith eto yn Lôn Ddŵr **Talysarn** - angen gwneud ymholiadau ynglŷn â beth sy'n digwydd gyda'r maes parcio wrth Fro Silyn ar gyfer Chwarel Dorothea. Mainc wrth safle bws ger y ganolfan wedi pydru ac angen sylw. Wal wedi disgyn yn Ffordd Rhiwlas ac angen sylw. **Nebo** - wal wedi disgyn yn Ffordd Nasareth angen sylw yn ogystal â wal ar y ffordd rhwng Penchwarel a Ffordd Nebo sydd wedi disgyn a cherrig yn y ffordd ers peth amser. Y clerc i gysylltu gyda'r sefydliadau gwahanol ynglŷn â'r uchod.

9. **Taflen ariannol a chyllid** - Pawb wedi derbyn copi o'r daenlen i edrych drosti. Dim byd yn codi ond adroddodd y clerc bod y presept wedi mynd fewn i'r cyfrif ers gwneud y daenlen. **Lwfans cynghorwyr** - rhoddwyd ffurflenni ar gyfer lwfans 2025/26 i bawb eu llenwi a dod a nhw nôl erbyn cyfarfod mis Mehefin. **Clwb Ieuenctid -** cais wedi dod unwaith eto eleni ynglŷn ag ariannu'r clwb hwn am 2025/26. Angen eu holi am sut mae pethau wedi bod yn mynd a faint sy'n mynychu ayyb cyn penderfynu. Trafod ymhellach yn ein cyfarfod mis Mehefin.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _______________________________ Dyddiad - ___________

10. **Llwybrau a Mynwentydd** - adroddwyd bod y contractwyr wedi bod yn torri'r mynwentydd ac wedi dechrau ar y llwybrau. Gofynnwyd am ganiatâd i wneud copïau o'r rhestr llwybrau er mwyn eu rhannu gyda'r aelodau sydd heb gopi - cytunwyd i hyn barhau. Gofyn i'r clerc gysylltu â'r contractwyr i dorri llwybr rhif 13. Roedd y contractwyr wedi adrodd bod drain yn tyfu ym Mynwent Bara Caws - angen gofyn iddynt barhau a gwaredu a'r drain. Coeden gelyn yn tyfu ym Mynwent Macpela ac angen ei thacluso - gofyn i'r contractwyr wneud hyn.

11. **Ceisiadau Cynllunio** - bu i Siân Dafydd adael y cyfarfod am y drafodaeth hon.

*- C25/0189/22/RA – Treddafydd, Stryd Fawr, Penygroes – cais ar gyfer rhyddhau amod 8 (tai fforddiadwy) ar ganiatâd C19/1089/22/LL*

*- C25/0198/22/AC - Treddafydd, Stryd Fawr, Penygroes - cais i ymgymryd â gwaith heb gydymffurfio ag amod 2 ar ganiatâd rhif C19/1089/22/LL*

Trafodwyd y ceisiadau uchod a phenderfynwyd yn unfrydol i wrthod am y rheswm nad ydi'r Cyngor Cymuned o'r farn bod angen mwy o dai rhent ym Mhenygroes ond angen tai i bobl leol eu prynu.

*- C25/0327/22/LL – Adeiladu dwy uned ddiwydiannol ysgafn, storio a dosbarthu. Y cyfan o fewn dosbarth defnydd B1, B2 a B8 – DIM GWRTHWYNEBIAD*

12. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis. Penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi cais Siân Gwenllïan ynglŷn â chael ysgol Ddeintyddol ym Mangor.

13. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r isod.

*- Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd = **£25.00***

14. **Unrhyw fater arall** - adroddwyd nad oedd neb wedi rhoi enw ymlaen ar gyfer sedd wag Penygroes.

15. **Diweddariad Tir Cwtin** - adroddwyd bod Lois Hughes ein cyfreithwraig wedi gadael y cwmni a'u bod wedi penodi rhywun arall i ymgymryd â'r gwaith hwn/

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 10fed Mehefin 2025 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________